



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Penrhyn Coch  
Penrhyncoch  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2012

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Penrhyn Coch tua thair milltir i'r gogledd o Aberystwyth. Mae'n gwasanaethu'r gymuned leol a'r ardal o gwmpas ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ceredigion.

Mae gan tua dau y cant o ddisgyblion hawl i brydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr sy'n llawer is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a chyfartaleddau cenedlaethol. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng pedair ac 11 mlwydd oed. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol.

Mae 96 o ddisgyblion ar y gofrestr ac maent wedi'u trefnu yn bedwar dosbarth o oedrannau cymysg. Mae oddeutu dau y cant o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol ond nid oes yr un disgybl sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig dros hanner o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r disgyblion yn cwmpasu ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae gan oddeutu 19% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sydd yn debyg i'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae nifer fechan o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Penrhyn Coch yn 2011-2012 yw £3,329. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ceredigion yw £8,706 a'r isafswm yw £2,987. Mae Ysgol Gynradd Penrhyn Coch yn 50fed o'r 60 ysgol gynradd yn awdurdod Ceredigion o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn natur yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf yng Ngorffennaf 2006. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2002.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda;
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweithio i'w llawn botensial;
- disgyblion yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd;
- profiadau dysgu yn bodloni anghenion disgyblion yn llwyddiannus; ac
- ansawdd yr addysgu ac asesu yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir y tîm rheoli yn rhoi arweiniad strategol effeithiol i waith yr ysgol;
- staff yn ymdrechu'n barhaus i wella ar berfformiad blaenorol;
- yr ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- data perfformiad yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella safonau; a bod
- cydweithio'n effeithiol gyda partneriaid strategol yn cael effaith fuddiol ar les a deilliannau disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 gynyddu'r canrannau o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau 3 a 5;

A2 cryfhau rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol; a

A3 rhoi ffocws cliriach yn y cynllun datblygu ar brif flaenoriaethau'r ysgol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Mae bron pob un yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Mae ganddynt ddi-ddordeb mewn llyfrau gyda'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer wedi dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol ac yn defnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau yn effeithiol i gyfathrebu eu syniadau.

Mae bron yr holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n ofalus yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn Blwyddyn 5, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at nifer o ddibenion yn y ddwy iaith ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol mewn sillafu a mynegiant.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn defnyddio eu medrau meddwl yn fedrus iawn wrth gydgyllunio a datrys problemau ymarferol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni.

Ar ddiwedd y flwyddyn addysgol ddiwethaf, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefelau disgwylidig mewn Cymraeg, Saesneg (cyfnod allweddol 2 yn unig), mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r teulu o ysgolion tebyg. Mae nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (lefelau 3 a 5) yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a pherfformiad y teulu.

Mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn y tri phwnc wedi bod yn bennaf yn y 50% isaf o ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn amlach na pheidio, wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod Allweddol 2, mae merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd.

Mae disgyblion ym mhob dosbarth yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae bron pob un yn canolbwyntio a dyfalbarhau ar eu tasgau, maent yn effro i holi a gofyn cwestiynau ac yn gweithio'n gynhyrchiol gan ddefnyddio'u hamser yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu tasgau yn hyderus ac wrth iddynt aeddfedu, yn gallu arfarnu eu gwaith yn feddylgar ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio i'w llawn botensial.

#### Lles: Da

Dywed disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol a'u bod yn rhydd oddi wrth unrhyw aflonyddwch gan ddisgyblion eraill. Mae gan ddisgyblion o

bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

Ym mhob dosbarth, mae disgyblion yn ymddwyn mewn modd cyfrifol iawn ac yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Gydag eithriadau prin, mae disgyblion yn weithgar a brwdfrydig ac yn cydweithio'n gytûn a diwyd dros gyfnodau estynedig. Mae llawer ohonynt yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn rhwydd ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus.

Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau ac yn elwa o amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau, gan gynnwys y cyngor ysgol a'r grŵp eco. Mae gan y cyngor rôl weithredol ym mywyd yr ysgol a'r aelodau'n ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu a gwneud penderfyniadau. Trwy amrediad eang o weithgareddau, gwna disgyblion o bob oedran gyfraniad allweddol i weithgareddau'r gymuned leol.

Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson dda ac yn amlach na pheidio, yn uwch na chyfraddau Cymru gyfan a rhai ysgolion tebyg.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r amrediad eang o brofiadau dysgu cyfoethog a ddarperir yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r profiadau dysgu hynod o ddiddorol a dychmygus a gynllunnir yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da iawn tuag at fodloni'r deilliannau dysgu angenrheidiol. Trwy gynllunio gofalus, sicrhau bod y cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion a bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Er mai ychydig o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau 3 a 5 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae darpariaeth briodol yn y dosbarthiadau ar gyfer herio disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau allweddol, ac yn arbennig medrau llythrennedd, wedi'u cynllunio'n drylwyr iawn. Mae'r rhaglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion sydd â medrau llythrennedd isel, yn galluogi'r disgyblion hyn i gaffael y medrau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach.

Mae gan y Dimensiwn Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a gwneir defnydd dychmygus o'r ardal leol a'i phobl i ddarparu profiadau a gweithgareddau dysgu ysgogol. Mae'r cwricwlwm, ynghyd â'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir, yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn effeithiol iawn.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hybu dealltwriaeth a phrofiadau'r disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae parchu aml-ddiwyllynnau, hybu agweddau gwrth hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae strategaethau'r ysgol yn ogystal â rhaglen y cyngor eco, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cynaliadwyedd a gwarchod yr amgylchfyd.

## **Addysgu: Da**

Mae'r berthynas waith glos sydd rhwng oedolion a disgyblion yn arwain at addysgu a dysgu effeithiol. Mae'r holl athrawon yn hyddysg yn eu gwaith ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn greadigol iawn i gynllunio profiadau dysgu ysgogol sydd ag amcanion dysgu clir. Caiff disgyblion o bob oedran a gallu eu herio i gyflawni'n dda a thrwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus staff, eu hannog i ymdrechu'n galed a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu.

Trwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau addysgu, llwydda'r athrawon yn dda i sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'w dysgu. Caiff athrawon a disgyblion gefnogaeth gref gan gymorthyddion dysgu medrus sy'n cyfrannu'n arwyddocaol i ddysgu ac addysgu. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau yn cyfrannu'n effeithiol tuag at hyrwyddo disgyblion yn ddysgwyr annibynnol.

Mae trefniadau asesu a chofnodi'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn galluogi athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd pob disgybl yn rheolaidd. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gryfder amlwg ac wedi'u gwreiddio'n gadarn yn nulliau addysgu ac asesu'r ysgol. Caiff disgyblion o bob oedran gyfleoedd cyson i arfarnu gwaith eu hunain ynghyd â gwaith eu cyfoedion.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a threfnus sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch ei disgyblion. Darperir amgylchedd cynnes a chroesawgar ac mae staff yn sicrhau bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae polisiâu a gweithdrefnau priodol i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel a'u bod yn cyflawni eu lles emosiynol a chorfforol yn llwyddiannus. Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iachus a thrwy weithgareddau corfforol a chlybiau ar ôl ysgol, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac yn sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o'i disgwyliadau.

Trwy ystod eang a diddorol o brofiadau, caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn cyfrannu'n effeithiol at greu ymdeimlad o gymdeithas wâr yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon ac mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ar gyfer pob disgybl. Cânt eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r asiantaethau arbenigol priodol. Gwneir defnydd pwrpasol o ddata perfformiad i gadw llygaid clos ar gynnydd pob disgybl a hefyd i adnabod gwahanol grwpiau sydd angen darpariaeth wahanol i'r arferol.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl weithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch, yn creu amgylchedd dysgu symbylol.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da sydd wedi'i weddu'n briodol ar gyfer yr holl ystod oedran a gallu. Manteisir yn llawn ar yr adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu at y ddarpariaeth yn y dosbarth. Caiff disgyblion gyfleoedd mynych i fod yn rhan o weithgarwch yr ysgol ac maent yn dangos balchder yn y rôl hon. Mae'r ysgol yn effeithiol iawn yn paratoi'r disgyblion ar gyfer camau nesaf mewn bywyd.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Mae'r ardal y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn adnodd gwerthfawr sy'n cynnig profiadau diddorol ac ysgogol iawn i'r disgyblion.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

## Arweinyddiaeth: Da

Mae gweledigaeth glir y tîm rheoli yn darparu arweiniad strategol effeithiol i waith yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth sy'n gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae parodrwydd staff i gefnogi a herio'i gilydd ac i roi cynnig ar fentrau a dulliau newydd o weithio, yn cyfrannu'n arwyddocaol at addysgu a dysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn ddiweddar wedi cychwyn adolygu a dadansoddi data cyflawniad disgyblion ac arsylwi gwersi, sydd wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddo o berfformiad yr ysgol. Mae'r corff yn cyflawni ei holl gyfrifoldebau statudol yn llawn. Er bod y pennaeth yn derbyn cefnogaeth gref gan lywodraethwyr, nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi ei datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i lawer o'r blaenoriaethau lleol a chenedlaethol diweddaraf. Mae hyrwyddo'r cwricwlwm medrau yn datblygu'n dda ac mae cysylltiadau adeiladol gydag ysgolion eraill yn gymorth i godi safonau a rhannu arfer dda.

## Gwella ansawdd: Da

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio strategol yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol gyda staff yn ymdrechu'n barhaus i wella ar berfformiad blaenorol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddangosyddion gan gynnwys tystiolaeth gan asiantaethau eraill megis gwasanaeth ymgynghorol yr awdurdod lleol, wrth ddod i farn am berfformiad cyfredol.

Defnyddir data perfformiad yn effeithiol ac yn gyson i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella safonau. Mae'r broses hon yn sicrhau gwelliant cynyddol trwy adnabod grwpiau targed amrywiol o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn gofyn barn disgyblion, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach yn rheolaidd ac yn ystyried yn ofalus unrhyw awgrymiadau a wneir. Mae'r broses hon yn sicrhau gwelliant cynyddol.



Mae prosesau hunanarfarnu yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynlluniau'r ysgol ar gyfer cynnal gwelliannau. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cyfleu darlun clir o'r sefyllfa gyfredol ac yn nodi'n glir y meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Er bod y cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol, nid oes ffocws digon clir ynddo ar brif flaenoriaethau'r ysgol.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol gref wedi'i sefydlu yn yr ysgol sy'n offeryn allweddol ar gyfer hyrwyddo gwelliannau ac ehangu profiadau disgyblion a staff. Mae mentrau diweddar gydag ysgolion amrywiol i godi safonau llythrennedd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrediad o bartneriaid strategol sydd yn cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r rhieni'n gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at lawer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Gwna'r ysgol ddefnydd rheolaidd o'r gymuned ac o adnoddau cymunedol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg.

Mae cysylltiadau gydag asiantaethau amrywiol yn hybu lles a diwallu anghenion penodol disgyblion yn dda. Cydweithia'r ysgol yn glos gyda chlwstwr o ysgolion cynradd y dalgylch ynghyd â nifer o ysgolion eraill, i gymedroli asesiadau athrawon ac i rannu arfer dda.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth agos gyda'r ysgol uwchradd leol. Mae gweithgareddau pontio wedi eu sefydlu'n dda ac yn mynd i'r afael â'r cwricwlwm a lles y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu a chefnogi'r staff er mwyn codi safonau ymhellach.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Lleolir athrawon a staff cefnogi yn dda i wneud y defnydd gorau posibl o'u hamser, arbenigedd a phrofiad. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o'u cyfnod cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn wedi eu rheoli'n dda.

Caiff trefniadau rheoli perfformiad staff eu gweithredu'n drylwyr ac mae trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod a diwallu anghenion datblygiad proffesiynol staff. Caiff y prosesau hyn ddylanwad uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu a deilliannau disgyblion.

Caiff yr ystod dda o adnoddau addysgu a dysgu a'r cyfleusterau eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a chânt eu hadolygu'n gyson.

Mae trefniadau cyllidebu systematig a chywir yn eu lle ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant saith oed) wedi bod yn bennaf yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mewn un flwyddyn, mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf yn gadarnhaol iawn gyda chanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch (y lefel ddisgwyliedig) yn y 25% uchaf o gymharu â'r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2007 a 2011, mae canlyniadau bron pob pwnc wedi bod yn y 25% isaf o ysgolion sydd yn yr un teulu.

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 2 neu uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2011 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol â'r meincnodau cenedlaethol a'r rhan fwyaf o ysgolion sydd yn yr un teulu. Ni lwyddodd yr un o'r disgyblion mwy galluog i gyrraedd y lefel 3 uwch mewn unrhyw un o'r pynciau. Mae hyn yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu.

Yn 2011, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ychydig yn uwch na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau ysgolion o'r un teulu. Mae canlyniadau Cymraeg ychydig yn is na'r meincnodau hyn. Mae'r gyfran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y lefel 5 uwch yn unrhyw un o'r pynciau yn is na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau'r teulu. Ni lwyddodd yr un disgybl i gyflawni lefel 5 mewn Cymraeg na gwyddoniaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd 40 o rieni'r holiadur cyn-arolygiad, sef ychydig dros hanner o deuluoedd yr ysgol. Roedd bron pob holiadur yn mynegi bodlonrwydd llwyr ynghylch yr ysgol ac yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Dywed bron pob rhiant:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plentyn hoffi'r ysgol a'i fod wedi cael cymorth da i ymgartrefu pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod staff yn parchu pob unigolyn ac yn eu trin yn deg;
- bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac yn cael ei helpu i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau a'i fod yn ddiogel tra yn yr ysgol;
- y cânt wybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn; a
- bod yr addysgu'n dda a'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed ychydig iawn o rieni nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol.

#### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Roedd bron pob un o'r 51 o holiaduron disgyblion a lenwyd yn mynegi agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol sy'n llawer uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Dywed bron pob plentyn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff rheolaidd a'u bod yn cael help gan athrawon ac oedolion i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod gwaith cartref yn eu helpu i wneud cynnydd a'u bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- eu bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd; a'u
- bod yn gwneud yn dda a bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Wil Williams	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Gwilym Rees	Arolygydd Cymheiriaid
E Pugh-Evans	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

#### Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

#### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

#### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.